

1851, blwyddyn yr arddangosfa fawr yn y Palas Grisial.

Er i'r Eisteddfod gael ei chyhoeddi yn Awst 1850, ar ddechrau Hydref 1851 y cynhaliwyd hi. Fe'i gohiriwyd yn friadol rhag iddi gyd-daro â'r sioe fawr yn Llundain.

Cyfeirir at hyn mewn llythyr gan Eliza Anne Gwynne at Ellis Owen, Cefnmeysydd, un o'r ysgrifenyddion. 'Roedd hi yn ferch i Maddocks ac yn ôl Alltud Eifion bu yn un o brif ysgogwyr yr ŵyl. Cyn cynnal yr Eisteddfod fodd bynnag ni allai fod yn bresennol gan ei bod yn feichiog yn dilyn ei hail briodas gyda F.W. Roche.

Cynhaliwyd yr eisteddfod mewn pafiliwn wnaed o goed yn y parc, neu Brecon Square fel y gelwid y lle bryd hynny. Mesurai 100 llath wrth 75 a gallai ddal tua pedair mil. Adeiladydd lleol o'r enw John Thomas fu'n gyfrifol am ei godi.

Fel sawl pafiliwn eisteddfodol o'i fath nid oedd yn gallu sefyll glaw trwm. Tra 'roedd côr Caernarfon yn cystadlu ar ddydd Iau yr ŵyl, pistyllai dŵr trwy'r to. Achosodd hyn i Meurig Idris, bardd yr orsedd, ddatgan un o'r ffraethinebau hynny sy' mor nodweddiadol o genedlaethau o arweinwyr eisteddfodau a'i olynodd.

Purion o beth, meddai, fyddai i'r côr ganu *Water Music* Handel yn hytrach na'r darn gosod.


Meurig Idris, ei frawd Idris Fychan telynor a Thalhaearn bardd yr eisteddfod oedd y triawd amryddawn a gyfrannodd o'r llwyfan ar lwyddiant diambheuol eisteddfod Madog yn ystod y tridiau y parhaodd. Mae Saesneg caboledig adroddiad y *Caernarvon and Denbigh Herald* o anerchiad Talhaearn yn perri rywun amau mai dyma gyfrwng y traddodi:

Although I am an Englishman too.... We must show our hospitality and gratitude to the English friends who have countenanced us with their presence and their money too at our bardic meeting

Dangosodd Hywel Teifi inni fel yr oedd Prydeindod taegogaid yn rhemp yn eisteddfodau'r cyfnod. Nid oedd eisteddfodau Porthmadog yn eithriad.

Nid oes raid ond edrych ar restr y noddwyr i sylweddoli beth oedd un rheswm arbennig tros yr holl ymgreinio. Neb llai na'r Arglwydd John Russell, y prif weinidog ar ben y rhestr a'r Cymro twymgalon hwnnw, Ardalydd Môn yn llywydd. Gan ei fod yn methu bod yn bresennol gweithredodd Syr Love Jones Parry, yswain Madryn, fel dirprwy iddo.

Esgbion, tîrffeddiannwyr mawr a bach, dyma'r dosbarth yr amlygwyd cymaint o bach iddynt gan drefnwyr Eisteddfod Madog.



Gweler yr ysgrif am arwyddocâd yr uchod

Y pencampwyr lleol er mawr foddhad i'r gynulleidfa oedd Emrys a wobrwyrwyd am farwnadau i W. Maddocks a John Williams, Tu hwnt i'r bwch, ei asiant. Enillodd hefyd ar yr Hir a Thoddaid i 'Gwmp Jericho' a chadwyn o englynion i'r 'Gwefr Hysbysai.'

Dyma fathiad nodweddiadol o'r oes am y teligriff, fe ymddengys mae'n debyg mai ysbryd yr Arddangosfa Fawr achosodd ddewis y testun ac efallai nad pawb sydd yn sylweddoli fod cwplod mwyaf adnabyddus Emrys:

*Segurdod yw clod y cledd
A rhwd yw ei anrhydedd.*

yn esgyll yr englyn olaf yn y gadwyn. O holl gynnyrch llenyddol eisteddfodau Porthmadog dyma'r llinellau mwyaf cofiadwy.

YN 1872 cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Eryri rhwng Awst 28-30 ac unwaith eto codwyd pafiliwn cyffelyb i'r cyntaf yn yr un safle. Mewn erthygl yn un o rifynnau cynnar Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon dywed y diweddar W.M. Richards y symudwyd y pafiliwn o'i safle gwreiddiol ar y traeth i sgwâr Brecon oherwydd llifogydd trwm.

Doeth fu eich penderfyniad, o garafanwyr!

Cynlluniwyd y pafiliwn gan y peiriannydd a'r pensaer lleol, Thomas Roberts. Hyd y gwn nid oes llun yn arddangos y pafiliwn yn allanol ond tynnwyd un mewnlol gan un o ffotograffwyr cyntaf y dref, gŵr o'r enw G.W. Holden.

O'r llun hwn y ceir y dystiolaeth anfarwol am barhad ysbryd gŵyl 1851 oedd yn amlwg yn dal i ddylanwadu'n drwm ar y selogion. Uwchben y llwyfan ceid baner ac arni gred yr oes am arwyddocâd a phwysigrwyd y cwlwm Celtaidd.

Erbyn 1872, roedd

rheilffordd y Cambrian wedi cyrraedd Porthmadog ac yn ôl adroddiad yr Herald Cymraeg, roedd trenau arbennig yn cludo'r eisteddfodwyr o Fangor, Caernarfon, Aberystwyth, Wrecsam a Dolgellau.

Er na fu fyw i anrhydeddu'r ŵyl â'i bresenoldeb mae'n werth sylwi fel y bu i Gadeirydd Pwyllgor Eisteddfod 1851, yr enwog David William Castell Deudraeth, cyfreithiwr ac ymgeisydd Rhyddfrydol, ddatgan yn 1858 ei fod bellach yn bendant fod un rheilffordd yn werth deg mil o eisteddfodau.

This is par excellence the age of progress and of scientific discoveries and it is I am afraid impossible to convert an Eisteddfod into an auxiliary for these purposes.

Mor briodol felly i Syr Watkin Williams Wynn ymddiheuro am gollu dau ddiwrnod cyntaf yr eisteddfod gan ei fod wedi gorfod mynychu cyfarfod Cwmni Ffordd Haearn y Great Western yn Llundain, un o'r prif foddion i ddatblygu adnoddau cyfoethog Cymru.

Croesawyd ef felllywyd y dydd yng nghanol ystorm o frwdfrydedd Cymreig. Onid dyma dirfeddiannwr mwyaf gogledd Cymru yr oedd ei glodydd yn feunyddiol ar wefusau ei denantiaid diolchgar, ac eithrio mae'n debyg y giwed hynny a wrthododd bleidleisio yn ôl gorchymyn ei stiwardiaid yn etholiad 1868?

Llwyd haeddent eu troi allan neu godiad rhent fel cosb am y fath anniolchgarwch. Onid dyma 'Eryr Eryrod Eryri a dderbyniwyd i'r Orsedd ar ben Ynys Fadog' yn wyneb Haul Llygaid Goleuni, yr union haul na fachludai byth ar yr ymherodraeth yr oedd yn gynrychiolydd mor deilwng ohoni?

Arwyddion helaeth o gymeradwyaeth felly gan y dorf i'r 'pendefig urddasol o

Wynnstay.'

AC YNTAU yn dair a phedwar ugain teithiodd Owain Gwryfai i eisteddfod Madog mewn cerbyd o Gaernarfon gyda chyfeillion o gyffelyb anian. Gan iddo godi braidd yn hwyr ni chafodd damaid i fwyta cyn cychwyn. Gwrthododd ymhellach pan arhosodd y cerbyd ym Meddgelert i orffwyso'r ceffylau.

Pan gyrhaeddwyd Tremadog cymrodd Alltud Eifion ato a'i hebrwng yn syth i'r Orsedd. Yna i'r pafiliwn ac ar ddiwedd yr eisteddfod oddeutu pedwar yn y prynhawn y cafodd gyfle i dorri ei hirbryd.

Yn ôl ei gofiant naddwyd cadair yn y graig i Owen Williams, eistedd arni yn rhinwedd ei swydd fel arweinydd yr orsedd. Ni lwyddais i ddarganfod ei safle ar ben Ynys Fadog ond nid rhyfedd efallai o sylweddoli mor goediog yw'r copa erbyn hyn o'i gymharu â'r llun a dynnwyd yn 1872.

Nodwedd ddiddorol o'r eisteddfodau fu parodrwyd y gwesteion anrhydeddus i anghydweld â datganiadau o'r llwyfan. Yn 1851 amddiffynnodd William Bulkeley Hughes yr aelod tros fwrdeisdrefi Arfon ei gyd-aelodau o Gymru pan gyfeiriwyd at eu syrthni seneddol gan Robert William Vaughan Hengwrt.

Yn 1872 tro yr Arglwydd Penrhyn ydoedd i fynegi ei anghymeradwyaeth o ddatganiadau Osborne Morgan. Cymharodd A.S. Dinbych yr eisteddfod yn ffafriol gyda rhai o hoff ddifyrion y werin Seisnig megis rasio mulod a dringo polyn seimllyd, prif atyniadau ryw ŵyl leol a fynychodd.

Atgoffodd y gynulleidfa mor ddilornus y bu'r Saeson o'r Eisteddfod fel sefydliad.

YN EI anerchiad ymatebodd yr Arglwydd trwy fynegi ei gred fod 'chwarae criced ac ymarferiadau corfforol ereill, y rhai na nodasid gan Mr. Morgan..... a mwy i'w wneud a ffurfiad cymeriad nad oedd yn ymddangos ar yr olwg gyntaf'.

Gresyn o beth yn ogystal oedd codi hen gnecs gan 'fod yr adeg y gwawdid yr eisteddfodau gan Saeson wedi pasio ers amser maith.' Fel hanner Sgotyn a hanner Cymro canmolodd rinweddau nodedig ei gymdogion megis 'uniondeb, geirwired, chwarae teg a chyfiawnder.'

Efallai yn wir ei fod yn rhoi bri arbennig arnynt ond dyma'r union werthoedd nad arddangoswyd fawr o barch atynt gan ei fab yr ail Arglwydd Penrhyn yn ei berthynas â'i chwarelwyr.

*** I dud. 12